**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 30 Mehefin 2021 am 5.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd R Williams |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd H Boggis | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd A Calvert | Y Cynghorydd T Williams |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G Davies | Y Cynghorydd S Pickering |
| Y Cynghorydd L De Vet | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd J Elliott | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd S.Evans | Y Cynghorydd S. Rees-Owen |
| Y Cynghorydd M Forey | Y Cynghorydd A Fox |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd E Webster |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd M Griffiths |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd M Weaver |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd L Walker |
| Y Cynghorydd G Hopkins | Y Cynghorydd P Howe |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd J James | Y Cynghorydd P Jarman |
| Y Cynghorydd R Turner | Y Cynghorydd G Thomas |
| Y Cynghorydd A Morgan | Y Cynghorydd M Adams |
| Y Cynghorydd J Rosser | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd R Lewis | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd S Powell |
| Y Cynghorydd Owen-Jones | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd S Belzak | Y Cynghorydd E Stephens |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd W Jones |
| Y Cynghorydd L Jones | Y Cynghorydd L Hooper |
| Y Cynghorydd J Harries | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd E George | Y Cynghorydd H Fychan |
| Y Cynghorydd J Davies | Y Cynghorydd J Cullwick |
| Y Cynghorydd A Cox | Y Cynghorydd A Chapman |
| Y Cynghorydd E Griffiths | Y Cynghorydd G Caple |
| Y Cynghorydd J Edwards | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

**25 Ymddiheuriadau**

Cafodd ymddiheuriad am absenoldeb ei dderbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Fidler Jones, K Jones, A Davies-Jones, M Tegg, W Owen a J Williams.

**26 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman fod ganddi "Yr hawl i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2020-2021 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid".

**Eitem 11b ar yr Agenda (Rhybudd o Gynnig):**

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Rwy'n derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E George y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Mae fy ngŵr yn derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R D Bevan y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Rwy'n derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Mae fy nhad yn derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Mae fy Nhad-cu yn derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Mae fy Nhad-cu yn derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Mae fy Llys-dad yn derbyn Pensiwn y Glowyr”

Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards y buddiant personol a'r buddiant sy'n rhagfarnu canlynol a gadawodd y cyfarfod pan gynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r eitem - “Mae fy Nhaid yn derbyn Pensiwn y Glowyr”

Yn ei absenoldeb, mynegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Fidler Jones yn dymuno tynnu'n ôl ei gefnogaeth ar gyfer y Rhybudd o Gynnig a nodwyd yn eitem 11B ar yr agenda.

## 27 Teyrngedau i'r Cynghorydd Clayton Willis

Talodd yr Aelodau canlynol deyrngedau i'r diweddar Gynghorydd Clayton Willis:

- Arweiniodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Stacey y teyrngedau i'w ffrind a'i gydweithiwr, y cyn Gynghorydd Clayton Willis gan rannu atgofion o'u hamser gyda'i gilydd. Dymunodd y Cynghorydd Stacey ddiolch i'r Maer ac eraill a fynychodd yr angladd.

- Talodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan deyrnged i'r cyn Gynghorydd C Willis a oedd wedi cynrychioli ward Tynant ers 2004. Cydnabu’r Arweinydd ei 25 mlynedd o wasanaeth o 1996, pan oedd yn Gynghorydd Cymuned ac yn Aelod o'r Cabinet ers 2008.

- Ar ran Grŵp Plaid Cymru, roedd Arweinydd yr Wrthblaid, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman wedi talu teyrnged i'r cyn Gynghorydd Clayton Willis gan fynegi ei chydymdeimlad â'i deulu

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Powell deyrnged i'r diweddar Gynghorydd C Willis ac estynnodd ei gydymdeimlad ar ran Grŵp Annibynnol RhCT

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J James, ac yntau'n Aelod ar ran ward sydd ar y ffin â ward y cyn Gynghorydd, ei deyrnged i'r diweddar Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Willis.

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo ei deyrnged i'w ffrind a'i gyn fentor, cyn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sir C Willis.

## 28 Cyhoeddiadau

- Dymunodd Arweinydd yr Wrthblaid, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman, a hithau'n Gadeirydd y Corff Llywodraethu yn Ysgol Gyfun Aberpennar, longyfarch cyn-ddisgybl yr ysgol o'r enw Brad Williams. Mae Brad wedi derbyn Gwobr Diana, gwobr sy'n enwog ledled y byd, am ei gyfraniad at newyddiaduraeth ym maes gweithgarwch cymdeithasol. Cafodd ei enwebu gan Mr David Church, Pennaeth Astudiaethau Crefyddol. Mae Brad Williams wedi gwirfoddoli gyda GTFM, ac yn ddiweddar cynigwyd lle iddo astudio ar gyfer ei radd meistr yn Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd. Roedd y Cynghorydd Jarman wedi galw ar Faer RhCT i anfon llythyr ato i gydnabod yr hyn y mae ef wedi'i gyflawni.

- Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth wedi cydnabod llwyddiant Tîm Pêl-droed Cymru yn yr Ewros gan roi sylw arbennig i Reolwr y Garfan, Mr Rob Page, o Gwm Rhondda.

- Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper deyrnged i staff Ysgol Gynradd Gwauncelyn, Ton-teg, y gymuned a'r rhieni am godi £ 3,000 i brynu offer newydd yn lle'r offer a gafodd eu dwyn o'r Ysgol. Roedd y Cynghorydd wedi cydnabod eu hymdrechion ac ysbryd y gymuned i godi'r arian o fewn 72 awr ar ôl y digwyddiad.

- Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J James (ar y cyd â'i gyd-gynghorydd S Trask) ddeiseb ar ran trigolion Llanilltud Faerdref i osod croesfan i gerddwyr ar Fryn y Goron, Llanilltud Faerdref.

- Dymunodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Bradwick longyfarch ferch ifanc yn ei ward, Sofia Barnes sy'n 8 oed. Roedd Sofia wedi troi hen gartonau llaeth yn ddosbarthwyr ar gyfer bagiau baw cŵn ac wedi'u gosod o gwmpas yr ardal i fynd i'r afael â phroblemau baw cŵn yn yr ardal. Gofynnodd y Cynghorydd S Bradwick bod Maer RhCT yn anfon llythyr ati i gydnabod ei brwdfrydedd a'i llwyddiant a hefyd bod Sofia yn cael ei gwahodd i Barlwr y Maer, pan fo hynny'n briodol.

**29 Rheol 15.1 - Dull Gweithredu'r Cyngor**

Cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais - a hynny fel bod modd cynnal y cyfarfod ar-lein mewn modd didrafferth.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor

Rhannodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gwybodaeth ynghylch nifer yr Aelodau Etholedig a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rhithwir ar y pryd, fesul Grŵp:-

Llafur - 42
Plaid - 13
Y Blaid Geidwadol - 3
Grŵp Annibynnol RhCT - 4
Aelodau heb eu Neilltuo - 1

**30 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd Cyngor canlynol yn rhai cywir:

1. 10 Mawrth 2021
2. 26 Mai 2021 (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor)
3. 26 Mai 2021 (Cyfarfod arbennig o'r Cyngor)

(Mae hyn yn amodol ar nodi na fydd unrhyw fanylion Cynghorwyr sy'n atal pleidlais yn cael eu nodi, oni bai bod y Grŵp Ceidwadol yn gofyn fel arall).

**31 Datganiadau**

- Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor unwaith eto wedi dathlu llwyddiant yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru 2021 yn rhan o seremoni rithwir ar-lein a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2021. Roedd tri o brentisiaid y Cyngor ar y rhestr fer ar gyfer gwobrau: cafodd Brittany Mason ei henwebu ar gyfer Prentis Sylfaen y Flwyddyn a llwyddodd hi i gipio'r wobr. Cyrhaeddodd Owen Lloyd rownd derfynol Prentis y Flwyddyn. Roedd Sophie Williams wedi ennill categori Doniau'r Dyfodol.

  Enillodd y Cyngor wobr Macro-gyflogwr y Flwyddyn, am yr eildro. Cafodd y Cyngor ei ganmol am sut yr aeth ati i gefnogi ei brentisiaid yn ystod y Pandemig wrth iddynt barhau â'u hastudiaethau yn ogystal â chael eu hadleoli i gefnogi gwasanaethau cymuned hanfodol, gan gynnwys gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a dosbarthu pecynnau bwyd. Dymunodd y Dirprwy Arweinydd ddiolch i'r garfan brentisiaethau ac i staff Adnoddau Dynol y Cyngor am eu cefnogaeth barhaus i'r prentisiaid.

  Daeth y Dirprwy Arweinydd i ben drwy roi gwybod bod CLlLC wedi nodi yr hoffai weithio gyda'r Cyngor ar ei gynllun prentisiaeth llwyddiannus.

- Dywedodd y Cynghorydd D R Bevan fod Lloyds Bank wedi cyhoeddi y bydd ei gangen ym Mhentre'r Eglwys yn cau, a hynny heb ymgynghori gyda'i gwsmeriaid ymlaen llaw. Mae'r Banc wedi nodi nifer o resymau dros gau'r gangen, megis bancio ar-lein, y nifer fach o gwsmeriaid sy'n defnyddio cyfleusterau'r Banc gan egluro y bydd y ddarpariaeth yn cael ei drosglwyddo i Gangen Pontypridd neu'r Swyddfa Bost leol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Bevan fod y Cyngor wedi erfyn ar Lloyds Bank i ailystyried gan ystyried y bydd cwsmeriaid hŷn yn cael trafferth yn cyrraedd y Banciau sydd bellach i ffwrdd. Dywedodd y Cynghorydd Bevan y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu maes o law.

**32 Cwestiynau gan yr Aelodau**

Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

**“All Arweinydd y Cyngor roi diweddariad ar gynnydd cynllun Cyfnewidfa'r Porth?”**

Ymatebodd yr Arweinydd drwy nodi fod Carfan Prosiectau'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o ran Hwb Trafnidiaeth Porth. Bydd cyfnewidfa bysiau a rheilffyrdd yn cael ei chreu ar safle'r orsaf bresennol a bydd y datblygiad hefyd yn cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan a gwelliannau pellach ar gyfer y rhwydwaith teithio Llesol.

Mae'r safle datblygu eisoes wedi'i glirio a'i baratoi'n ar gyfer y gwaith adeiladu ac yn ddiweddar derbyniodd y Cyngor ganiatâd cynllunio. Mae dyluniad manwl ar gyfer yr Hwb Trafnidiaeth wedi'i gwblhau hefyd. Mae hyn wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan gwmni Trafnidiaeth Cymru, sef partner darparu gwasanaethau allweddol y Cyngor, ac mae'r cyfnod tendro ar gyfer adeiladu'r datblygiad wedi dod i ben yn ddiweddar.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor bellach yn cynnal trafodaethau gyda'r contractwr sydd wedi'i ddewis i ddyfarnu'r contract cyn dechrau ar y gwaith adeiladu. Mae dros £5.3miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer y cynllun yn rhan o Gronfa Buddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Er mwyn cefnogi trefniadau cyllido yn y dyfodol, mae cais wedi'i gyflwyno i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU; gan nodi Hwb Trafnidiaeth Porth fel prosiect allweddol ar gyfer cyllid.

I gloi, nododd yr Arweinydd ei fod wedi cwrdd â Robert Jenrick, yr Ysgrifennydd Gwladol dros faterion Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, yn ddiweddar yn ystod ymweliad â Threorci. Roedd y cyfarfod yn gadarnhaol iawn ac roedd ganddo ddiddordeb yn y cynigion.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple:**

**“All yr Arweinydd ddweud rhagor am y buddsoddiad ar gyfer ardal Porth yn rhan o’r Strategaeth Canol Tref?”**

Dywedodd yr Arweinydd fod yr Hwb Trafnidiaeth yn rhan allweddol o Strategaeth Canol Tref Porth, gan gydnabod y rôl strategol allweddol y mae'r ardal yn ei chwarae fel cyffordd rhwng ardal Cwm Rhondda Fach ac ardal Rhondda Fawr, gan ddarparu profiad gwell o ran trafnidiaeth i ddefnyddwyr y bysiau a'r rheilffyrdd.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at gyfres o brosiectau buddsoddi eraill sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd yn ardal Porth, fel y cynlluniwyd yn Strategaeth Canol Tref Porth:

- Mae'r cyfleuster Parcio a Theithio cyfagos yn cael ei ehangu, gan ategu manteision yr Hwb Trafnidiaeth, trwy gynyddu nifer y mannau parcio ac ychwanegu cyfleusterau gwefru ar gyfer cerbydau trydan.

- Mae Grant Cynnal a Chadw Canol Tref y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi nifer o fusnesau i wella blaenau'u siopau er mwyn gwella'r dref, tra bod Wi-Fi am ddim wedi bod ar gael i ymwelwyr a masnachwyr ers mis Medi'r llynedd.

- Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio i ddefnyddio grant Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru yn ardal Porth i sicrhau bod adeiladau gwag yng Nghanol y Dref yn cael eu defnyddio eto.

- Cafodd Plaza'r Porth ei ddatblygu i gynnig lle i ystod eang o

swyddogaethau cymorth i'r gymuned a chydnerthedd, gan gynnwys llyfrgell, gwasanaeth IBobUn a chyngor a chymorth cyflogaeth.

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnig lle i ddarpariaeth tai gofal ychwanegol.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

**"All yr Arweinydd roi diweddariad ar y gwaith i fwrw ymlaen â'r adroddiadau Adran 19 mewn perthynas â llifogydd Chwefror 2019?"**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod adroddiadau sy'n ystyried yr ymchwiliadau corfforol a thechnegol a gynhaliwyd ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd wrth siarad â'r cyhoedd yn y gymuned yn cael eu llunio ar hyn o bryd, a hynny yn dilyn y gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a gafodd ei gynnal ledled RhCT ym mis Ionawr 2021 yn ogystal â'r ymateb gan y cyhoedd.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid megis Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch sut y gellir prosesu adroddiadau yn y dyfodol gan fod angen cwblhau 19 adroddiad o dan Adran 19 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Mae hyn yn gofyn am lawer iawn o amser gan swyddogion yn ogystal ag amser i ymgynghori. Fodd bynnag, cyhoeddodd y bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad Adran 19 cyntaf ar ddechrau mis Gorffennaf 2021.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ynghyd ag adroddiad trosolwg sydd hefyd yn cynnwys manylion y gwaith ymchwil mewn perthynas â llifogydd fydd yn cael ei gynnal.

Y bwriad yw cyhoeddi manylion ynghylch yr adroddiadau sy'n weddill yn rheolaidd dros y misoedd nesaf hyd nes y bydd pob adroddiad wedi'i gyhoeddi. Bydd angen ymgynghori'n fanwl ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill mewn perthynas â rhai o'r adroddiadau hyn felly ni allwn gadarnhau trefn cyhoeddi'r adroddiadau.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis:**

**"All yr Arweinydd ddarparu trosolwg o'r buddsoddiad ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig â llifogydd ers Storm Dennis?"**

Amlinellodd yr Arweinydd y buddsoddiad cyllid grant a wariwyd dros y 5 mlynedd diwethaf a chynllun gwaith y cytunwyd arno mewn egwyddor gyda Llywodraeth Cymru.

Mae hyn wedi cynnwys buddsoddiad sylweddol ar gyfer Cwm Rhondda, yn benodol, bydd ardal Pentre yn elwa o nifer o gynlluniau, tra bod cynlluniau hefyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer ardal Ynys-hir ac ardal Porth yn ddiweddar.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Yeo ar gyfer yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg,**

**Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins**:

**“A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar drefniadau ymweld â chartrefi gofal ledled y Sir?”**

Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins fod Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ei chanllawiau diweddaraf ynghylch ymweld â chartrefi gofal a bod y newidiadau wedi dod i rym ar 24 Mai 2021 - disgwylir y bydd modd ymweld â chartrefi yn dilyn asesiad risg. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau awyr agored ac eithrio os bydd achosion yn codi yn y cartref gofal.

Mae'r cyfyngiadau o ran nifer yr ymwelwyr yn gyffredinol wedi'u llacio, mae modd i hyd at ddau berson ymweld â phreswylydd y tu mewn i'r cartref - nid oes angen iddynt fod yn ymwelwyr dynodedig bellach. Mae'r canllawiau hefyd wedi'u diwygio i dynnu sylw at bwysigrwydd hawliau pobl i breifatrwydd yn ystod ymweliadau, a bod angen i ddarparwyr cartrefi gofal fod yn fwy hyblyg o ran pennu amseroedd ymweld ynghyd ag egluro y gall ymweliadau ddigwydd yn ystafelloedd y preswylwyr eu hunain, os nad yw ystafell ymweld ddynodedig ar gael.

Ychwanegodd y Cynghorydd Hopkins fod gallu gweld perthnasau a ffrindiau yn bwysig ar gyfer preswylwyr y cartrefi gofal a'u teuluoedd, a bod y Cyngor a darparwyr cartrefi gofal a gomisiynwyd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod ymweliadau dan do mor ddiogel â phosibl. Cyn ymweld ag unrhyw gartref gofal, rhaid i berthnasau a ffrindiau gysylltu â'r cartref gofal perthnasol i gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith. Roedd y Cynghorydd wedi sôn am yr angen i sicrhau bod ymweliadau'n cael eu gweithredu mewn ffordd sy'n bodloni holl ofynion canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Cynghorydd Hopkins fod yn rhaid i berthnasau a ffrindiau gysylltu â'r cartref yn gyntaf a rhaid iddynt gyflawni Prawf Llif Unffordd Covid-19 cyn cael caniatâd i fynd i mewn. Cewch chi'r canlyniad cyn pen 30 munud.

Rhaid gwisgo gorchudd wyneb wrth ddod i mewn i'r cartref, a rhaid i ymwelwyr ddilyn yr holl reolau o ran cadw pellter cymdeithasol, hylendid dwylo a Chyfarpar Diogelu Personol lle mae'n debygol y bydd cysylltiad agos sylweddol â'r preswylydd, ac yn enwedig pan fydd risg uwch o ran trosglwyddo'r haint.

Dywedodd y Cynghorydd Hopkins fod yn rhaid i berthnasau a ffrindiau peidio ag ymweld â'r cartref os oes ganddyn nhw symptomau, os ydyn nhw wedi cael prawf positif neu'n aros am ganlyniad prawf, neu'n gyswllt agos ag achos positif o Covid-19. Dylai pawb ddilyn canllawiau hunanynysu Llywodraeth Cymru. Os bydd achos o Covid yn y cartref gofal, dylai'r cartref roi'r gorau i drefnu ymweliadau ar unwaith (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel ymweliad diwedd oes - ac i ddarparwyr gofal hanfodol) i ddiogelu'r preswylwyr, staff ac ymwelwyr sy'n agored i niwed.

I gloi, pwysleisiodd y Cynghorydd Hopkins fod staff yn gwneud popeth o fewn eu

gallu i gadw'u hanwyliaid a'r preswylwyr yn ddiogel, felly mae'n bwysig bod y cyhoedd yn gweithio gyda nhw i leihau'r perygl.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Yeo:**

**"Os daw'n amlwg bod pigiadau atgyfnerthu'n gwneud gwahaniaeth, sut ydyn ni'n sicrhau bod ein cartrefi gofal yn cael eu blaenoriaethu?"**

Dywedodd y Cynghorydd Hopkins fod Strategaeth Brechu Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd rhagorol ac mae'n bwysig dilyn yr un dull synhwyrol a ddilynwyd yn ystod cam 1 a 2. Ychwanegodd ei fod yn rhagweld dull tebyg yn cael ei weithredu ar gyfer Cam 3 o ran sut rydym yn cynnal imiwnedd i amddiffyn pobl a hynny gan ddilyn cyngor gwyddonol.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Thomas i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:**

**"A wnaiff yr Arweinydd roi diweddariad ynghylch unrhyw raglenni wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â'r broblem o lifogydd parhaus ar Ffordd y Rhigos?"**

Roedd yr Arweinydd wedi ymateb drwy nodi fod nifer o broblemau ar Ffordd y Rhigos wedi derbyn sylw ac mae Adrannau Peirianneg y Cyngor wedi bod yn llunio cynigion er mwyn lliniaru'r llifogydd sy'n digwydd yn aml yn ardal Ffordd y Rhigos.

Mae gwaith llunio'r cynigion yn mynd rhagddo, fodd bynnag, mae'r ffaith fod nifer o gyfleusterau BT yng nghyffiniau'r gwaith yn effeithio ar y rhaglen ar hyn o bryd. O ganlyniad i hynny, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod y 2-3 wythnos nesaf gyda BT i ganiatáu i'r prif ddarn o waith gychwyn. Y bwriad yw cychwyn gwaith ar y safle yn ystod Hydref 2021.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi gwneud cais i Gronfa Ffyrdd Cydnerth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 a'u bod wedi llwyddo i sicrhau grant ar gyfer 90% o gostau'r prosiect.

Daeth yr Arweinydd i ben drwy nodi fod stormydd Chwefror 2020 yn cynrychioli digwyddiad storm sy'n digwydd unwaith mewn 100 mlynedd ac ers yr amser hwnnw bu cynnydd o 20% yn yr holl fuddsoddiadau newydd ers Storm Callum.

**Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Trask i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:**

**"All yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth wneud datganiad ar strategaeth bioamrywiaeth y Cyngor fel rhan o'i agenda werdd?"**

Dywedodd y Cynghorydd A Crimmings, ei bod hi'n effro i'r ffaith bod nifer wedi

derbyn ymholiadau dros yr wythnosau diwethaf ond y byddai'n manteisio ar y cyfle i ddarparu ateb manwl er budd yr holl Aelodau.

Mae gweithdrefn Dyletswydd Bioamrywiaeth y Cyngor wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a gwella trwy gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Er enghraifft, mae'r amcan o leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd a sefydlu'r Pwyllgor Llywio ar Faterion Newid yn yr Hinsawdd wedi arwain at ddatblygu dull Asedau Byd Natur, lle mae camau gweithredu bioamrywiaeth â blaenoriaeth hefyd yn darparu gweithredu ymarferol a hirdymor i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Yn gynnar yn 2020, cymeradwyodd Aelodau'r Cabinet y Polisi Rheoli Glaswellt Blodau Gwyllt. Mae'r polisi yma'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn i nodi ardaloedd blodau gwyllt wrth ymyl y ffordd, parciau, mynwentydd, cefn gwlad ac ysgolion. Mae ardaloedd blodau gwyllt yn cael eu gadael i flodeuo yn yr haf ac yna mae'r glaswellt yn cael ei “dorri a'i gasglu” yn yr hydref.  Mae'r dull rheoli yma'n creu “dolydd gwair” ac yn darparu'r amodau delfrydol ar gyfer blodau gwyllt brodorol.

Trwy newid y dull rheoli, mae lefelau maetholion y pridd yn gostwng, ac mae'r blodau gwyllt brodorol yn ffynnu, sy'n darparu cynefin bwydo a chysylltu pwysig ar gyfer pryfed sy'n peillio. O ganlyniad i hyn, mae'n helpu i leihau effeithiau hirdymor newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth leol. Mae modd i natur twmpathog glaswelltiroedd blodau gwyllt hefyd helpu i amsugno ac arafu dŵr wyneb ac mae lleihau'r nifer o weithiau y mae'r glaswellt yn cael ei dorri hefyd yn lleihau faint o bridd sy'n cael ei gywasgu.

Felly, mae rheoli blodau gwyllt hefyd yn gwella strwythur llystyfiant ac iechyd y pridd, a gall hyn helpu i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fywyd gwyllt brodorol ac effeithiau glaw trwm.

Ar hyn o bryd mae ymgynghoriad ar-lein o'r enw 'Dewch i Siarad RhCT - Blodau Gwyllt' yn gwahodd trigolion lleol i enwebu ardaloedd y maen nhw'n teimlo y gellid eu rheoli gan ddefnyddio'r dull 'dolydd gwair' ac sy'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol o ran pa gamau mae modd eu cymryd i helpu cynnal blodau gwyllt a phryfed brodorol yn eu gerddi eu hunain. Mae'r ymgyrch hon yn dilyn yr ymgyrchoedd blaenorol mewn perthynas â cherbydau trydan ac mae'n rhan o'r sgwrs ehangach ynghylch Newid yn yr Hinsawdd y mae'r Cyngor yn ceisio ei chael gyda'i drigolion ar hyn o bryd.

Mae datrysiadau eraill Asedau Byd Natur yn cynnwys y potensial i adfer dulliau storio carbon, megis y rheiny sy'n ymwneud â mawnogydd. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot i adfer dros 540 hectar o dirwedd hanesyddol rhwng y ddwy Sir. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu'r tirweddau trawiadol sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth a hefyd yn lleihau llifogydd yn naturiol ac yn atal tân glaswellt, gan ddefnyddio dull naturiol i adfywio coed i gynyddu coetiroedd, a chynyddu nifer y coed sy'n cael eu plannu yn yr amgylchedd trefol.

Daeth y Cynghorydd Crimmings i ben drwy nodi bod yr egwyddor o weithio gyda natur i weithredu mewn modd sy'n gwella amodau ar gyfer bioamrywiaeth a phobl trwy roi rhagor o wydnwch o ran newid hinsawdd yn enghraifft o sut mae cyflawni bioamrywiaeth strategol yn cael ei integreiddio â chamau gweithredu eraill y Cyngor sy'n cael eu blaenoriaethu. Roedd y Cynghorydd wedi diolch i'r staff sy'n arwain ar y darn yma o waith.

**33 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR: BLWYDDYN Y CYNGOR 2021–2022**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ddiweddariad ynghylch Rhaglen Waith y Cyngor gan roi gwybod y byddai unrhyw welliannau a diweddariadau yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor yn rheolaidd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r adroddiad Ariannol Tymor Canolig yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn maes o law a hynny'n dilyn ymgynghori ag Arweinydd y Cyngor ac Arweinwyr yr Wrthblaid.

**PENDERFYNWYD:**

1.Nodi'r Rhaglen Waith ddrafft sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad;

2.Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021-2022 (gyda'r newidiadau priodol lle bo angen) a derbyn diweddariadau pellach gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu fel sy'n briodol.

**34 AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF GAN GOMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GWEINIDOGION CYMRU**

Aeth yr aelodau ati i drafod argymhellion terfynol yr adroddiad a oedd yn cynnwys pob un o
argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Roedd hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau i'r
trefniadau presennol, disgrifiad o'r newid, y sylwadau a gafodd eu cyflwyno, y rhesymau dros unrhyw newid a map o'r cynigion.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r argymhellion terfynol fel y nodir yn yr adroddiad

**35 GWELLIANNAU O RAN MYNEDIAD AC YMGYSYLLTU MEWN PERTHYNAS Â DEMOCRATAETH**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ddatganiad sefyllfa mewn perthynas â'r trefniadau i alluogi darlledu cyfarfodydd pwyllgor a'r gallu i weithredu trwy ddull hybrid. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y trefniadau, fel yr adroddwyd yn flaenorol, yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n gosod dyletswydd ar brif gynghorau i roi trefniadau ar waith ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r cyfarpar gweddarlledu ar 15 Ebrill 2021, gyda'r bwriad o fabwysiadu'r un dull cam wrth gam a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer cyflwyno cyfarfodydd rhithwir yn

ystod haf 2020.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi cydnabod sylwadau adeiladol yr Arweinwyr Grŵp ac Aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae pob un ohonynt yn cefnogi’r dull cam wrth gam a gan ddefnyddio'r dull yma bydd yr holl Aelodau’n dysgu'r prosesau ac yn eu mireinio wrth i amser fynd yn ei flaen.

Cadarnhawyd y bydd profion llif unffordd ar gael ar gyfer hyd at chwech ar hugain o Aelodau a Swyddogion sy'n dymuno mynd i Siambr y Cyngor. Bydd y dull yma'n atgyfnerthu'r neges ynghylch iechyd y cyhoedd.

Ar ôl trafod yr adroddiad ac ar ôl i'r Arweinwyr Grŵp bwysleisio'u cefnogaeth o blaid bod yn atebol a mabwysiadu'r ddarpariaeth gweddarlledu gan weithredu dull cam wrth gam, **PENDERFYNWYD**:

(i) Nodi datblygiad y ddarpariaeth weddarlledu yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf, yn unol â gofynion Deddf L Etholiadau Cymru, 2021.

(ii) Nodi datblygiad ynghylch gweddarlledu i gynorthwyo â gwaith hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd a thryloywder proses wneud penderfyniadau'r Cyngor;

(iii) Nodi penderfyniad y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r cyfarfodydd sydd wedi'u hargymell yn rha cynnal ar-lein, a'r rhai a fydd yn cael eu hwyluso trwy ddull hybrid yn y dyfodol, yn amodol ar y cafeatau a amlinellir yn yr adroddiad.

(iv) Nodi'r cyfarfodydd a fydd yn cael eu gweddarlledu a'u ffrydio'n fy ar wefan y Cyngor a'r broses o gyflwyno'r cyfarfodydd yma.

(v) Nodi ein bod yn symud i system Modern.Gov i gyhoeddi gwybodaeth ar wefan y Cyngor, gan gynnwys manylion yng Aelodau.

(vi) Nodi'r cyllid a dderbyniwyd trwy'r Gronfa Democratiaeth D datblygiadau yr oedd eu hangen er mwyn bwrw ymlaen â Mhencadlys y Cyngor.

## 36 PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL BRYS

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu 17.2(a), cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu drosolwg o'r Penderfyniadau Brys a ddygwyd ymlaen gan Bwyllgor y Cabinet a phenderfyniadau dirprwyedig brys gan swyddogion, a gafodd eu gweithredu y tu allan i Bwyllgor y Cabinet, yn ystod y cyfnod Ionawr - Mai 2021.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth mewn perthynas â chaffael tir i'r Gogledd Orllewin o Stryd Harriet, Trecynon, sef hen Ffatri 'Mayhew Chicken Factory', Trecynon, Aberdâr, RhCT **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

**37 Rhybuddion o Gynigion**

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Powell, L Walker, W Owen, K Jones, W Jones a P Howe:

"Mae'r Cyngor yma'n cydnabod:

• bod achosion parhaus o ollwng sbwriel yn cael effaith niweidiol ar gymunedau yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gwneud yr ardal yn anneniadol i ymwelwyr ac nid yw'n ennyn unrhyw falchder ymhlith y bobl sy'n byw yn yr ardal.

• yr angen i addysgu pobl er mwyn newid eu harferion os ydyn ni am lwyddo i lanhau ein hardaloedd lleol ac er mwyn gwneud hynny mae angen slogan ymgyrchu arnom ni i ddal sylw pobl.

Mae'r Cyngor yma'n nodi:

• llwyddiant ymgyrchoedd fel yr ymgyrch 'Check Your Balls' i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ganser y ceilliau.

• ymgyrchoedd ardaloedd eraill, e.e. Abertawe https://www.abertawe.gov.uk/article/59212/Peidiwch-a-thaflu-sbwriel-dros-benwythnos-gwyl-y-banc

• y bu nifer o ymgyrchoedd yn cynnwys 'Don't be a Tosser' ledled y DU i annog pobl i beidio â thaflu sbwriel ers i'r Cyngor yma glywed y syniad a'i wrthod yn 2009.

• bod pethau wedi newid cryn dipyn yn ystod y 12 mlynedd ddiwethaf, ac mae geiriau a fu unwaith yn annerbyniol bellach yn cael eu hystyried yn wahanol.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

• gofyn i'r Cabinet a swyddogion perthnasol roi ystyriaeth lawn i gyflwyno ymgyrch 'Don't Be a Tosser' er mwyn annog pobl i beidio â thaflu sbwriel.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD –** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodwch:** Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman a W. Lewis yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio i beidio â mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig)

**PENDERFYNWYD** y dylai Rheol Gweithdrefn 10.6 y Cyngor cael ei atal fel bod modd trafod y Rhybudd o Gynnig isod, a hynny gan ystyried bod cefnogwr y Rhybudd o Gynnig, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Williams, wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu ac sydd, o ganlyniad i hynny, ddim yn cymryd rhan yn y cyfarfod.

Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Caple, R Williams, L. M. Adams, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, A Crimmings, A. Davies-Jones, L. De- Vet, J. Edwards, J. Elliott, S. Evans, G. Jones, M. Fidler Jones

M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, R. Lewis, W. Lewis, C Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Rees, A Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D Williams, T. Williams a R. Yeo:

Ar 29 Ebrill 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Dethol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) e adroddiad ar Gynllun Pensiwn y Glowyr. Roedd yr adroddiad yn archwilio anghyfiawnder hanesyddo glowyr yn cael eu hamddifadu o'u hawliau pensiwn haeddiannol.

Fel y bydd yr Aelodau'n cofio, cefnogodd y Cyngor yma Rybudd o Gynnig yn cefnogi Ymgyrch Cyfiawnder a Chwarae Teg Cymdeithas Bensiwn y Glowyr y DU yn 2017, gan alw i aildrafod y trefniant i rannu unrhyw arian dros ben 50:50 rhwng y cyn-lowyr a Llywodraeth y DU. Er gwaetha galw am Ddadl Seneddol, cafodd y mater ei wneud yn destun ymchwiliad Pwyllgor Dethol.

Nawr, mae'r adroddiad BEIS a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi nodi y dylid adolygu'r trefniant yma rannu'r arian dros ben a sefydlu system decach yn ei le sy'n gweld y rhai sy'n derbyn y pensiwn yn cael "canran fwy realistig o unrhyw arian dros ben."

Mae'r adroddiad yn cydnabod nifer o broblemau arwyddocaol gyda chanlyniad trafodaethau 1994, gan gynnwys methiant y Llywodraeth i gyflawni diwydrwydd dyladwy ac absenoldeb cyngor actiwaraidd Mae hyn wedi arwain at Lywodraeth San Steffan yn derbyn dros £4 biliwn o'r trefniant, a'r disgwyl yw y bydd yn derbyn £1.9 biliwn pellach. Mae'r elw sylweddol yma wedi'i wneud heb i Lywodraeth San Steffan dalu ceiniog i'r cynllun.

Dylid chwilio am drefniant newydd ar frys, ac mae'r Cyngor yma'n cefnogi'r model argymelledig sy'n cael ei gynnig yn adroddiad BEIS. Mae'r model yn cynnwys y manylion canlynol:

- Fydd ond gan Lywodraeth San Steffan hawl i ran o'r arian dros ben os bydd diffyg arian yn y Cynllun ac os bydd raid i'r Llywodraeth ei ariannu. Byddai hyn wedyn yn rhoi hawl i 50% o'r arian dros ben hyd at gyfanswm gwerth yr arian sydd wedi'i ddarparu i bontio unrhyw ddiffyg yn y dyfodol.
- Dylai Llywodraeth San Steffan hefyd ildio'i hawl i Gronfa Wrth Gefn y Buddsoddiad a throsglwyddo'r gronfa £1.2 biliwn i gyn-lowyr er mwyn cynnig cynnydd ariannol iddyn nhw yn syth.

Felly mae'r Cyngor yma'n penderfynu y dylai Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at y Prif Weinidog Canghellor y Trysorlys a'r Gweinidog Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i ddangos cefnogaeth y Cyngor i argymhellion adroddiad BEIS ac i annog Llywodraeth San Steffan i newid y trefniant annheg a chyflwyno setliad teg sy'n seiliedig ar gyngor actiwaraidd ac sy'n canolbwyntio ar fudd gorau derbynwyr y pensiwn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD –** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

(**Nodwch:** Roedd yr Aelodau canlynol o'r Grŵp Llafur yn dymuno cofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig:

| |
|---|
| Y Cyng Mark Adams |
| Y Cyng Jill Bonetto |
| Y Cyng Steve Bradwick |
| Y Cyng Jayne Brencher |
| Y Cyng Anita Calvert |
| Y Cyng Gareth Caple |
| Y Cyng Ann Crimmings |
| Y Cyng Jeffrey Elliott |
| Y Cyng Sheryl Evans |

| |
|---|
| Y Cyng Mike Forey |
| Y Cyng Adam Fox |
| Y Cyng Geraint Hopkins |
| Y Cyng Rhys Lewis |
| Y Cyng Wendy Lewis |
| Y Cyng Tina Leyshon |
| Y Cyng Andrew Morgan |
| Y Cyng Susan Morgans |
| Y Cyng Mark Norris |
| Y Cyng Dan Owen-Jones |
| Y Cyng Sue Pickering |
| Y Cyng Steve Powderhill |
| Y Cyng Stephen Powell |
| Y Cyng Sharon Rees |
| Y Cyng Joy Rosser |
| Y Cyng Graham Stacey |
| Y Cyng Margaret Tegg |
| Y Cyng Graham Thomas |
| Y Cyng Wendy Treeby |
| Y Cyng Maureen Webber |
| Y Cyng Doug Williams |
| Y Cyng Tina Williams |
| Y Cyng Richard Yeo |

Roedd yr Aelodau canlynol o Grŵp Plaid Cymru'n dymuno cofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig:

| |
|---|
| Y Cyng Alun Cox |
| Y Cyng Danny Grehan |
| Y Cyng Eleri Griffiths |
| Y Cyng Pauline Jarman |
| Y Cyng Larraine Jones |
| Y Cyng Elyn Stephens |
| Y Cyng Maureen Weaver |
| Y Cyng Emyr Webster |

Roedd yr Aelodau canlynol o Grŵp Annibynnol RhCT yn dymuno cofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid y Rhybudd o Gynnig:

| |
|---|
| Y Cyng Phil Howe |
| Y Cyng Will Jones |
| Y Cyng Lyndon Walker |

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 pm**

**Cllr S Powderhill**
**Cadeirydd.**